# Y Pwyllgor Menter a Dysgu
## Economi; Menter; Trafnidiaeth; Dysgu Gydol Oes

## Croeso i fwletin y Pwyllgor

Y Pwyllgor Menter a Dysgu yw un o Bwyllgorau Craffu **Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** Ei brif swyddogaeth yw dwyn **Llywodraeth Cynulliad Cymru** i gyfrif drwy edrych ar wariant, gweinyddiaeth a pholisïau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill yn y meysydd a ganlyn:

- **Datblygu economaidd**
- **Trafnidiaeth**
- **Addysg, Dysgu gydol oes a Sgiliau**

Bwletin neu gylchlythyr yw hwn i unigolion a chyrff sydd am gael gwybodaeth am waith Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr hyn y mae wedi'i gyflawni a'r modd y mae'n gweithio. Gobeithio y bydd yn gwneud gwaith y Pwyllgor yn fwy hysbys ac yn ennyn diddordeb pobl yn y gwaith hwnnw drwy'ch helpu i roi gwybodaeth ac arbenigedd i'r swyddogion a'r Aelodau. Cafodd y bwletin ei lunio gan y tîm clercio sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor.

## Manylion cysylltu


| | | | |
|---|---|---|---|
| **Siân Phipps** | Clerc | 02920 898582 | sian.phipps@wales.gov.uk |
| **Dan Collier** | Dirprwy Glerc | 02920 898020 | daniel.collier@wales.gov.uk |
| **Mike Lewis** | Cymorth Tîm | 02920 898018 | michael.lewis@wales.gov.uk |

Gallwch hefyd anfon e-bost at Dîm Clercio'r Pwyllgor drwy ddefnyddio'r linc: Pwyllgor menter a dysgu@Wales.gov.uk. Ein rhif ffacs yw: 02920 898021

Gwefan: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home.htm

## Y newyddion diweddaraf

**Yr Agenda Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg**
Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid allweddol drwy gydol tymor yr hydref a bu'n craffu ar waith y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes; ac yn craffu ar waith y Gweinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar ddechrau tymor y gwanwyn.

**Rhaglen adnewyddu'r economi**

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i weithredu Rhaglen Adnewyddu'r Economi Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn nodi'r prif faterion a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd y llythyr hwn ar 24 Tachwedd 2010 ac mae modd ei weld drwy ddefnyddio'r linc isod;

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_erp/business-inq-erp-evidence.htm

Rydym yn disgwyl am ymateb y Gweinidog yn nhymor y gwanwyn. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu craffu ar ymateb y Gweinidog mewn cyfarfod yn ystod y tymor.

**Rôl y mentrau cymdeithasol yn economi Cymru**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid allweddol yn y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru a bu'n craffu ar waith y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 18 Tachwedd 2010 mewn digwyddiad rhwydweithio yn adeilad newydd *Pack-IT* yng Nghaerdydd ac mae modd gweld yr adroddiad drwy ddefnyddio'r linc isod:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_inq_soc-ent/el_inq_soc_ent_evidence.htm

Bydd dadl ar yr adroddiad ac ar ymateb y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Chwefror 2010.

**Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**
Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid allweddol a bu'n craffu ar waith y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 15 Hydref 2010 ac mae modd ei weld yma;

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-report/el_3_-10-r09.htm

Bydd dadl ar yr adroddiad ac ar ymateb y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Ionawr 2010.

**Grwp Rapporteur ar Ddwyieithrwydd**

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar gam cyntaf yr ymchwiliad 'Addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith' ar 30 Medi 2010. Bu dadl ar yr adroddiad ac ar ymateb y Gweinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Rhagfyr.

Mae modd gweld yr adroddiad, ymateb y Gweinidog a thrawsgrifiad y Cyfarfod Llawn drwy fynd i'r linc isod;

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-report/el_3_-10-r08.htm

Mae'r grwp rapporteur hefyd wedi clywed tystiolaeth ar ail gam yr ymchwiliad i hyfforddiant a sgiliau dwyieithog yn y gweithle; a rhyngwynebu busnes â'r cyhoedd. .

Clywodd y grwp dystiolaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Llais Defnyddwyr Cymru ar 29 Medi 2010 ac ymwelodd â Natwest a CADCentre y DU yng Nghaerdydd ar 1 Rhagfyr 2010. Bydd y grwp rapporteur yn cyhoeddi ei ail adroddiad yn ystod tymor y gwanwyn.

## Gwaith y Pwyllgor yn nhymor y gwanwyn 2011:

**Sylwer y gall dyddiadau a phynciau'r ymchwiliadau newid wrth i flaenoriaethau ddod i'r amlwg**

Gan y bydd y Cynulliad yn cael ei ddiddymu ar 31 Mawrth mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal sesiynau craffu untro yn ystod tymor y gwanwyn i fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu argymhellion ymchwiliadau blaenorol.

**Adolygu'r rhaglen ffyrdd yng Nghymru** - Bydd dwy sesiwn ym mis Ionawr a fydd yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth gan randdeiliaid yn cynnwys y Comisiynydd Traffig ar gyfer Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr a chraffu ar waith y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

**Adolygu'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru** – Bydd dwy sesiwn ym mis Ionawr a fydd yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol a chraffu ar waith y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

**Adolygu'r ymdriniaeth o'r Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth)** - Mae Gorchymyn Arfaethedig y Pwyllgor 2010 ar ei hynt trwy'r Senedd. Cytunodd y Dirprwy Brif Weinidog i gefnogi'r Gorchymyn Arfaethedig er mwyn hwyluso ei hynt drwy San Steffan. Bydd cyd-drafodaethau rhwng swyddogion perthnasol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a swyddogion San Steffan a disgwylir y bydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn cyrraedd y Pwyllgor Materion Cymreig ar ôl y Nadolig.

Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i'r Pwyllgor ar gyfer craffu ar eu gwaith o ran proses y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol mewn cyfarfod ym mis Chwefror.

**Cronfeydd Strwythurol - Gweithredu rhaglenni 2007-2013** - Bydd dwy sesiwn ym mis Chwefror i ailedrych ar yr ymchwiliad hwn. Bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol ac yn craffu ar waith y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

**Rhaglen Adnewyddu'r Economi** – Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd un sesiwn ym mis Chwefror i ailedrych ar yr ymchwiliad hwn. Bydd y

Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

**Cyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru** – Bydd sesiwn ym mis Mawrth i ailedrych ar yr ymchwiliad a fydd yn cynnwys clywed tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol. Bydd y Pwyllgor yn dilyn y cynnydd a wnaed gan y Llywodraeth i weithredu argymhelliad adroddiad y Pwyllgor trwy glywed tystiolaeth a chraffu ar waith y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

**Yr agenda weddnewid ar gyfer addysg ôl-16** – Bydd y Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar ei ymateb i lythyr y Pwyllgor a gyhoeddwyd yn ystod yr haf 2010.

**Sgiliau yng Nghymru** – Bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol ac yn craffu ar waith y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau mewn cyfarfod ym mis Mawrth.

**Effaith polisi Cwangos Llywodraeth y DU ar Gymru** – Bydd un sesiwn ym mis Mawrth.

## Sut rydym yn cynllunio ymchwiliadau

***Syniadau, dyheadau, arbenigedd a gwybodaeth Aelodau'r Cynulliad yw man cychwyn pob ymchwiliad, ac mae Aelodau'r Cynulliad yn eu tro'n defnyddio'u hetholwyr a'u cysylltiadau proffesiynol fel sail i hynny.***

Fel arfer, bydd yr Aelodau a'r swyddogion yn trafod sut i gynllunio ymchwiliadau tua unwaith y tymor, er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor raglen waith dreigl a hyblyg.

Gall ymchwiliadau ddeillio o wahanol sefyllfaoedd:

- Yn aml, bydd y Pwyllgor yn penderfynu ailedrych ar ymchwiliadau penodol, wedi i gyfnod priodol fynd heibio, i weld a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu'r argymhellion hynny a gafodd eu derbyn gan y Pwyllgor. Yn yr achosion hyn, bydd yn cynnal ymchwiliad dilynol gweddol fyr.
- Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Deisebau yn gofyn i'r pwyllgorau craffu ymchwilio i faterion sy'n codi mewn deisebau. Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu wedi cyflwyno adroddiad ar nifer o ddeisebau - er enghraifft, gorsaf reilffordd Carno; tanwydd a chludiant ar y ffyrdd; anghenion dysgu ychwanegol a'r ddeiseb 'Pride in Barry'.
- Gan fod Pwyllgorau'n gallu cynnig deddfwriaeth, gallant gynnal ymchwiliadau craffu cyn y broses ddeddfu er mwyn sicrhau bod

deddfwriaeth yn cael ei drafftio'n gadarn a'i bod yn diwallu anghenion yr holl randdeiliaid.

- Os yw deddfwriaeth Senedd y DU yn effeithio'n sylweddol ar Gymru, gall y Pwyllgor graffu ar Fesurau drafft Senedd y DU neu Fesurau Senedd y DU.
- Yn dilyn ymchwiliad mewn maes penodol, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn penderfynu craffu'n fanylach ar un neu ddau o'r materion a gododd. Er enghraifft, ym mis Chwefror, cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon ac, o ganlyniad, roedd yr Aelodau'n dymuno ymchwilio ymhellach i swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion.
- Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn penderfynu bod angen defnyddio dulliau mwy anffurfiol a hyblyg o ymchwilio i fater penodol yn hytrach na chraffu ar dystiolaeth mewn gwrandawiadau ffurfiol. Os felly, gall sefydlu grŵp rapporteur o thua phedwar aelod er enghraifft, i ymgymryd â'r gwaith y tu ôl i'r llenni, gan gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor llawn. Dyna ddigwyddodd yn achos adroddiad y Pwyllgor ar ddyslecsia. Ar hyn o bryd mae gan y Pwyllgor grŵp rapporteur sy'n ystyried agweddau ar ddwyieithrwydd.
- Weithiau bydd tystion yn awgrymu materion eraill i'r Pwyllgor eu hystyried.

## Ac i gloi…

### Sylwadau os gwelwch yn dda!

Hoffem glywed **gymaint o sylwadau â phosibl** ynglŷn â'r ddogfen hon: a oedd hi'n ddefnyddiol i chi, a oedd ei chynnwys yn berthnasol ac yn addas, ac a hoffech i ni gynnwys rhywbeth arall y tro nesaf? Anfonwch e-bost at: daniel.collier@wales.gsi.gov.uk

**Mae croeso i chi anfon y ddogfen hon neu ein manylion cysylltu at unrhyw un os credwch y byddai ganddynt ddiddordeb yng ngwaith y Pwyllgor Menter a Dysgu.**

### Y bwletin nesaf

Byddwn yn cynhyrchu bwletin terfynol ar waith y Pwyllgor erbyn diwedd mis Mawrth 2011 .....